# Lower Berse Farm, Wrecsam, ym 1970
# Lower Berse Farm, Wrexham in 1970


Ym 1970 fe ymwelodd y Comisiwn Brenhinol â Lower Berse Farm ger Wrecsam i ymchwilio i hanes yr adeilad a rhoi cyngor i'r perchnogion am fod arnynt eisiau moderneiddio'r llawr uchaf. Cawsai tŷ neuadd canoloesol ei guddio adeg ailgodi'r adeilad ym 1873. Gwnaed lluniadau ohono a thynnwyd ffotograffau i'w hadneuo yn yr archif.

In 1970 the Royal Commission visited Lower Berse Farm near Wrexham to investigate the history of the building and provide advice to the owners, who wanted to modernise the upper floor. There was a medieval hall house hidden amid a rebuild of 1873. Drawings were made and photographs taken for deposition in the archive.




Chwith: Ystafell fyw Lower Berse Farm. Er i'r llun gael ei dynnu ym 1970, mae'r addurno'n adlewyrchu arddulliau a phatrymau a oedd yn boblogaidd o ddechrau'r 1900au ymlaen.

Left: The living room at Lower Berse Farm. Although the photograph was taken in 1970, the decoration reflects styles and patterns that were popular from the early 1900s onwards.





Chwith: Pan ychwanegwyd llawr uchaf at yr adeilad, cuddiwyd cyplau cerfiedig y to o'r golwg. Gallant roi gwybodaeth bwysig am ddyddiad yr adeilad ac am ddatblygiad pensaernïaeth draddodiadol Cymru.

Left: When an upper floor was inserted into the building, the carved roof trusses were hidden from view. These can provide important information on the date of the building and the development of Welsh traditional architecture.




Chwith: Cerfiwyd Canopi Esgynlawr Lower Berse Farm yn gelfydd ac mae'n amlwg ei fod yn arwydd o statws. O dano yr eisteddai perchennog yr eiddo i fwyta a chynnal busnes wrth ei fwrdd.

Left: The Dais Canopy at Lower Berse Farm, under which the owner of the property sat to eat and conduct business at his table is deftly carved, and is a clear status symbol.





Chwith: Gwnaed y lluniad hwn i ddangos coed y to mewn perthynas â gweddill yr adeiladwaith.

Left: This drawing was made to show the roof timbers in relation to the rest of the building structure.

Isod: Un o'r miloedd o adeiladau y mae'r Comisiwn wedi'u harolygu yw Lower Berse Farm. Gall y cyhoedd gyrchu'r cofnodion hynny yn swyddfa'r Comisiwn Brenhinol yn Aberystwyth a hefyd, fwyfwy, ar-lein drwy www.coflein.gov.uk

Below: Lower Berse Farm is just one of thousands of buildings which the Commission has surveyed. The public can access these records at the Royal Commission's office in Aberystwyth, increasingly, online through www.coflein.gov.uk




**Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru**
*Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru*

**Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales**
*National Monuments Record of Wales*

Plas Crug, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 1NJ

*Ffôn/ Telephone:* 01970 621200

www.cbhc.gov.uk / www.rcahmw.gov.uk